



**Mae'r cymhwyster hwn yn cwmpasu pynciau a thasgau cyfrifeg a chyllid cymhleth, gan ddatblygu hyder gydag ystod eang o sgiliau a chymwysadau rheoli ariannol. Bydd myfyrwyr yn ennill cymwyseddau wrth ddrafftio datganiadau ariannol ar gyfer cwmnïau cyfyngedig, argymell strategaethau systemau cyfrifeg ac adeiladu a chyflwyno adroddiadau cyfrifeg rheoli cymhleth.**

## Cyflwyno'r Cwrs

Mae'r cymhwyster AAT yn cael ei ddarparu'n llawn ar-lein trwy ein partner Peak Accountancy Training naill ai trwy **"Sesiynau Byw"** wythnosol neu trwy sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw **"Sesiynau Sylfaenol Ar-lein"**.

Mae'r **"Sesiynau Byw"** yn cael eu cynnal ar amserlen benodol trwy gydol y flwyddyn. Mae sesiynau yn para tua 3 awr bob wythnos. Byddant yn eich galluogi chi i gymryd rhan mewn gwersi wrth iddynt ddigwydd a gofyn cwestiynau. Os ydych chi'n dewis y sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw (**Sesiynau Sylfaenol Ar-lein**) gallwch gael mynediad i'r sesiynau ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Mae'r **"Sesiynau Sylfaenol Ar-lein"** yn gynnwys fideos byr wedi'u recordio a byddwch hefyd yn derbyn adnoddau papur i fynd gyda nhw i'w defnyddio gyda'i gilydd. Byddwch yn gallu cael cefnogaeth un i un.

Gallwch ddilyn cymysgedd o "Sesiynau Byw" yn ogystal â "Sesiynau Sylfaenol" yn ôl eich anghenion.

Hyfforddiant Cambrian bydd eich arweinydd ar gyfer archebu a gwybodaeth logistaidd a Peak Accountancy bydd eich cefnogaeth ar gyfer yr holl wybodaeth AAT a gwaith cwrs.

Bydd angen i chi fynychu canolfan brofi AAT i sefyll eich asesiadau uned ar gyfer pob uned.

## Gofynion Mynediad

Rhaid i chi gael eich cyflogi yng Nghymru am o leiaf 16 awr yr wythnos mewn rôl ariannol. Bydd angen i chi gwblhau AAT Lefel 3 cyn dechrau'r rhaglen hon.

**Hyd y rhaglen yw 16 mis.**



**NB - AAT registration and exam fees are not Nodyn - Nid yw ffioedd cofrestru ac arholiadau AAT wedi'u cynnwys yn y cyllid a bydd angen i chi neu eich cyflogwr dalu'r costau hyn. Bydd angen i'ch cofrestriad fod yn ei le cyn eich arholiad cyntaf.**

## DIPLOMA LEFEL 4 AAT MEWN CYFRIFEG BROFFESIYNOL

### Unedau Gorfodol:

#### Cyfrifeg Rheoli Gymhwysol

Mae'r uned hon yn galluogi myfyrwyr i ddeall sut mae'r broses gyllidebol yn cael ei chynnal. Bydd myfyrwyr yn gallu llunio cyllidebau a nodi ac adrodd ar feysydd llwyddiant ac ar feysydd a ddylai fod o bryder i randdeiliaid allweddol. Bydd myfyrwyr hefyd yn ennill y sgiliau sydd eu hangen i werthuso perfformiad sefydliadol yn feirniadol.

#### Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol

Mae'r uned hon yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer drafftio datganiadau ariannol cwmnïau cyfyngedig unigol a datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer grwpiau o gwmnïau. Mae'n sicrhau y bydd myfyrwyr yn cael lefel fedrus o wybodaeth a dealltwriaeth o safonau cyfrifeg ryngwladol wrth ddrafftio'r datganiadau ariannol. Bydd myfyrwyr yn cael gwerthfawrogiad cadarn o'r fframweithiau rheoleiddiol a chysyniadol sy'n sail i baratoi datganiadau ariannol cwmnïau cyfyngedig.

#### Rheolaeth a Systemau Cyfrifeg Fewnol

Mae'r uned hon yn dysgu myfyrwyr i ystyried rôl a chyfrifoldebau'r swyddogaeth gyfrifeg, gan gynnwys anghenion rhanddeiliaid allweddol sy'n defnyddio adroddiadau ariannol i wneud penderfyniadau. Bydd myfyrwyr yn adolygu systemau cyfrifeg i nodi gwendidau a byddent yn gwneud argymhellion i liniaru gwendidau a nodwyd mewn gweithrediadau yn y dyfodol. Bydd myfyrwyr yn cymhwyso sawl dull dadansoddol i werthuso goblygiadau unrhyw newidiadau i weithdrefnau gweithredu.



## Unedau dewisol (Rhaid dewis dwy uned):

### Treth Busnes

Mae'r uned hon yn cyflwyno myfyrwyr i drethiant y DU sy'n berthnasol i fusnesau. Bydd myfyrwyr yn deall sut i gyfrifo trethi busnes ar gyfer unig fasnachwyr, partneriaethau a chwmnïau cyfyngedig. Byddent hefyd yn gallu nodi cyfleoedd cynllunio treth wrth ddeall pwysigrwydd cynnal safonau moesegol.

### Rheolaeth a Systemau Cyfrifeg Fewnol

Mae'r uned hon yn dysgu myfyrwyr i ystyried rôl a chyfrifoldebau'r swyddogaeth gyfrifeg, gan gynnwys anghenion rhanddeiliaid allweddol sy'n defnyddio adroddiadau ariannol i wneud penderfyniadau. Bydd myfyrwyr yn adolygu systemau cyfrifeg i nodi gwendidau a byddent yn gwneud argymhellion i liniaru gwendidau a nodwyd mewn gweithrediadau yn y dyfodol. Bydd myfyrwyr yn cymhwyso sawl dull dadansoddol i werthuso goblygiadau unrhyw newidiadau i weithdrefnau gweithredu.

### Treth Bersonol

This unit provides students with the Mae'r uned hon yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i fyfyrwyr o'r tair treth fwyaf cyffredin sy'n effeithio ar drethdalwyr yn y DU: Treth Incwm, Treth Enillion Cyfalaf a Threth Etifeddiant. Gyda'r wybodaeth hon bydd myfyrwyr yn cael eu paratoi nid yn unig i baratoi agweddau cyfrifiadurol trethi, lle bo hynny'n briodol, ond hefyd i werthfawrogi sut y gall trethdalwyr leihau eu rhwymedigaeth drethiant cyffredinol yn gyfreithlon.

### Archwilio a Sicrwydd

Mae'r uned hon yn darparu dealltwriaeth ehangach o egwyddorion a chysyniadau, gan gynnwys rheolau cyfreithiol a phroffesiynol gwasanaethau archwilio a sicrwydd. Bydd yr uned yn darparu ymwybyddiaeth o'r broses archwilio o gynllunio ac asesu risg i gwblhau a chynhyrchu'r adroddiad archwilio terfynol. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael persbectif ymarferol ar archwilio a sicrwydd, gyda

phwyslais ar gymhwyso technegau archwilio a sicrwydd i systemau cyfredol.

### Arian Parod a Rheolaeth Ariannol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rheoli arian parod o fewn sefydliadau ac mae'n cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud penderfyniadau gwybodus ar ariannu a buddsoddi yn unol â pholisïau sefydliadol a rheoliadau allanol. Bydd myfyrwyr yn nodi trafodion arian parod presennol ac yn y dyfodol o ystod o ffynonellau, yn dysgu sut i ddileu eitemau nad ydynt yn arian parod ac yn defnyddio technegau amrywiol i baratoi cyllidebau arian parod.

### Rheoli Credyd a Dyledion

Mae'r uned hon yn darparu dealltwriaeth a chymhwyso egwyddorion systemau rheoli credyd effeithiol, gan gynnwys systemau rheoli dyled briodol. Bydd myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i dechnegau y gellir eu defnyddio i asesu risgiau credyd yn unol â pholisïau, deddfwriaeth berthnasol ac egwyddorion moesegol.

### Sgiliau Hanfodol

Os nad yw prentis eisoes wedi cyflawni TGAU Gradd A\*-C (neu gyfwerth) mewn Mathemateg neu A-G mewn Saesneg, bydd disgwyl iddynt weithio tuag at ein rhaglen Sgiliau Hanfodol. Mae cyflogwyr yn ystyried y sgiliau hyn yn hanfodol a thrwy ennill y cymhwyster hwn, mae prentisiaid yn dangos eu bod yn gallu eu defnyddio mewn sefyllfaoedd gwaith.

- Cymhwyso Lefel Rhif 2
- Cyfathrebu Lefel 2

Os byddwch chi'n cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, gallwch wneud cais am [aelodaeth lawn AAT \(MAAT\)](#), ac os ydych chi'n meddwl dechrau eich practis eich hun, byddwch yn gallu gwneud cais i ddod [yn Gyfrifydd Trwyddedig AAT neu Geidwad y Cyfrifon](#).